**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD EUR-03-99 (agd)**

Dyddiad: 25 Tachwedd 1999

Amser: 9.30am

Lle: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**AGENDA**

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

**Eitem lafar**

**Eitem 2: Cynrychiolaeth y Cynulliad ym Mrwsel**

**(a) Swyddfa’r Cynulliad**

**(b) Canolfan Ewropeaidd Cymru**

**Papurau:** EUR-03-99(p.1) ac EUR-03-99(p.2)

Yn ei gyfarfod diwethaf, bu’r Pwyllgor yn ystyried y ffordd y byddai Cymru’n cael ei chynrychioli ym Mrwsel yn y dyfodol. Mae’r eitem hon yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ynghyd â mwy o fanylion am y ffordd y bydd y ddwy elfen yn gweithio.

**Eitem 3: Secondiadau i Sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-03-99(p.3)

Mae’r eitem hon yn hysbysu aelodau am y trefniadau sydd ar y gweill o ran cynrychioli’r Cynulliad yn sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd drwy secondio staff.

**Eitem 4: Gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-03-99 (p.4)

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried cynigion i sefydlu system i olrhain y ffordd y mae’r Cynulliad yn gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd.

**Eitem 5: Trefniadau arfaethedig ar gyfer ymweliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd â Brwsel**

**Papur:** EUR-03-99(p.5)

Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynigion ar gyfer ymweliad waith gan y Pwyllgor â Sefydliadau Ewropeaidd a Chanolfan Ewropeaidd Cymru yng ngwanwyn 2000.

**Eitem 6: Papur Gwyn y DU ar Ddatblygiadau yn y DU**

**Papur:** EUR-03-99(p.6)

Mae'r eitem hon yn cyflwyno, er gwybodaeth, Bapur Gwyn Llywodraeth y DU a gaiff ei gyhoeddi a'i ddiweddaru bob chwe mis.

**Eitem 7: Cynrychiolaeth yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru**

**(i) Papur:** EUR-03-99(p.7)

**(ii) Cyflwyniad gan Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cyflwyniad hwn gan Ms Eva.

**Eitem 8: Adrodd yn ôl o'r cyfarfod cyntaf o Fforwm Ewropeaidd Cymru ac agenda drafft ar gyfer y fforwm nesaf ym mis Ebrill 2000**

**Papur:** EUR-03-99(p.8)

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried casgliadau'r cyfarfod cyntaf o'r Fforwm ar 22 Hydref 1999 a'r agenda arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf a fydd, yn ôl yr hyn y cytunwyd arno yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, yn canolbwyntio ar yr Arian Sengl ac Ehangu'r UE i mewn i Ddwyrain Ewrop.

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EUR-02-99(min)

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Tachwedd 1999